# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

John Griffiths AC
Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Hydref 2012

Annwyl John

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14**

Diolch am ymddangos ger ein bron ar 18 Hydref 2012. Rydym wedi nodi ein casgliadau o'r sesiwn mewn llythyr i'r Pwyllgor Cyllid, ac mae copi wedi'i amgáu. Cyfeiriwch at y llythyr hwnnw i gael sylwebaeth fanylach ar y pwyntiau a godwyd isod.

I grynhoi, rydym wedi amlygu'r meysydd canlynol i'r Pwyllgor Cyllid i'w hystyried:

- Corff Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru
- Polisi Morol
- Datblygu cynaliadwy
- Buddsoddi i arbed a'r Corff Adnoddau Naturiol

Fel y gwelwch o'n cyflwyniadau i'r Pwyllgor Cyllid, mae gennym geisiadau i chi yn rhai o'r meysydd hyn. Mae'r ceisiadau hyn yn cyd-fynd â'r wybodaeth a nodir yn y llythyr i'r Pwyllgor Cyllid. Er mwyn croesgyfeirio'n hawdd, mae'r rhifau sy'n dilyn pob pennawd isod yn cyd-fynd â'r paragraff perthnasol yn y llythyr i'r Pwyllgor Cyllid. Gweler y ceisiadau isod:

- ***Corff Adnoddau Naturiol (1.2)*** – Gofynnwn i chi gadarnhau:
    - a fydd unrhyw arbedion a wnaed drwy sefydlu'r Corff Adnoddau Naturiol yn arwain at ostyngiad yn y cyllid a gaiff yn y dyfodol; a
    - pa ganlyniadau a gyflawnir gan y £2 miliwn a ddyrennir i ailstrwythuro'r *Fframwaith Amgylchedd Naturiol* yn 2013-14?
- ***Polisi morol (2.1)*** – Mae'r lefel o flaenoriaeth a roddir i'r maes polisi hwn yn ymddangos yn annigonol ac ni chaiff y gwaith o ariannu'r polisi

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8709/8639
E-bost / Email:dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk
alun.davidson @wales.gov.uk

hwn ei gyflwyno'n dryloyw yn y gyllideb ddrafft. Gofynnwn i chi nodi'n glir o dan ba linell gwariant cyllideb o dan y cam 'Cyflawni polisïau cadwraeth natur a morol' y mae'r £120,000 a ddyrennir i bolisi morol yn perthyn iddo, a'r canlyniadau yr ydych yn eu disgwyl o'r gwariant hwn. Gofynnwn i gyllidebau yn y dyfodol nodi'n glir y gwariant a gynllunnir ar bolisi morol.


- ***Datblygu cynaliadwy (3.2)*** - Mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol, hoffem weld rhagor o fanylion am sut y gwnaeth datblygu cynaliadwy ddylanwadu ar ddyraniadau gwariant. Er enghraifft, hoffem wybod a gafodd polisïau eu haddasu er mwyn cyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy neu a ddewiswyd un opsiwn polisi dros un arall am resymau cynaliadwyedd.

Yn fwy cyffredinol, gwnaethoch ymateb i sawl cwestiwn ynghylch darparu adnoddau drwy gyfeirio at gyllid digonol sydd ar gael o gyllidebau staffio gan adrannau canolog a Llywodraeth Cymru. Rydym ychydig yn bryderus bod nifer o flaenoriaethau polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perygl os na allwch gael gafael ar gyllid digonol i'w cyflawni. Byddem yn disgwyl, mewn sesiynau craffu yn y dyfodol, eich bod yn gallu nodi'n glir i'r Pwyllgor eich llwyddiant wrth gael gafael ar y cronfeydd hyn i gynyddu gallu'ch adran i gyflawni ei chanlyniadau a nodwyd.

Ar y cyfan, bu gwelliannau yng nghyflwyniad ac eglurder y papurau cyllideb a'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd. Rydym yn croesawu symudiadau tuag at well tryloywder. Fodd bynnag, mae lle sylweddol i wella o hyd. Er bod camau wedi'u cymryd i geisio cysylltu cynllunio ariannol ag amcanion polisi'r rhaglen llywodraethu, mae angen gwneud mwy i wneud y cysylltiadau hyn yn gliriach. Mae angen egluro rhagor er mwyn galluogi mwy o graffu ariannol cynhwysfawr, a byddwn yn disgwyl gwelliannau pellach pan fyddwn yn dychwelyd at graffu ariannol o fewn y flwyddyn a chraffu ar gyllideb ddrafft 2014-15 yr hydref nesaf.

Diolch i chi eto am ymddangos ger ein bron. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



**Dafydd Elis-Thomas AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
c.c. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid